1.6.8

Syr John Williams,
Barnewig.

1.6.8

Syr John Williams,
Barnewig.

o adyſc Criſtnogaul, a Doſparth catholic ar daudeg punc y phyd, a eluir y gredo, hefyd ar uedi'r argluyd, Sef yu y Pader ar gyfarchiad yr Angel, a eluir yr Aue Maria, yn dyuaethaf ar y deg gair dedf, a eluir y deg gorchymyn, guedi gyfiaithu o'r ladin i'r gymeraeg, druy dyfal ddſtudiaeth a lafur D. Roſier Smyth o dref Laneluy, Athrau o Theologydiaeth, megis ymdidan ne dialogiaith rhung y dyſcibil ar Athrau.

Bonum eſt mihi lex oris tui, ſupra millia auri & argenti. *Pſal.* 118.

Guel i mi gyfraith d'enau di, na miloed. o aur ag arian.

A Breintiuyd yn Ninas Paris, ag a dechreuyd i breintio y dyd cyntaf o fis Maurth. Sef yu dydguyl Deui Sant. Anno 1609.



ANHERCHIONATY darleur haudgar dedfaul.

Guedi'mi ystyrio cyflur ag y stad egluys duu y dyd hediu, a gueled yr anirif o sectau heretigaid, a gau athrauyaeth a oyscarod ag a danod y gelyn, meun lauer o uledyd ag ardalau o Europa, megis y Lutheriaid, y Caluiniaid a'r Puritaniaid, a lauer erail hebson am danynt, a phob vn o honynt yn claimio, ie yn teyrn'n diguilid fod i dysceidiaeth ai athrauyaeth yn gristnogaid ag yn gatholic, pe rhon ai bod yn gyhoed ag yn olau yn erbyn Crist ai uir egluys, a hefyd athrauyaeth pob vno honynt y nail yn erbyn y lal. Achan fedul am y galuadigaeth y galuod duu si ido, a'm dyledysgariad a'mrhuymedigaeth i'm gulad, guelais yn gymmuys dy rhybydio (a hyny er muyn ymgledu d'enaid) i ochel nid yn vnic yr athrauyaeth hereticaid uchod,

ythyr hefyd ymurthod ie phieidio hol dyſceidiaeth aral ar ſy'n erbyn yr egluys gatholic. Ag ermuyn hyny o achos mi a gyſiaithiais y lyfr bychan yma o'r ladin i'r gymraeg ith hyphordi yn yr iaunathrauyaeth cans yn hun y darfu gunaethyd Doſparth catholic ar daudeg punc y phyd a eluir y Gredo, hefyd deanglad ar uedi r argluyd a eluir y Pader, ar gyfarchiad yr angel, a eluir yr. Aue Maria, ag yn diuaethaf ar y deggair dedf a eluir y deg gorchymyn, le i gelir gueled yn olau ag yn eglur iaun phyd griſt a'r pethau angenrheidiol i bob Criſtion i gredu yndiogel os myn gadu i enaid yn ſalfiedig. Canis lyma'r phydymae'r Egluys gatholic yn i bropheſydu ag yn i gredu, hon ni alſyth dy ſiommi, oblegyd fod yr ysbryd glan yn i athrauy'n dragyuydol. hon yu ſylfaen y phyd a cholofny guirioned megis ag y mae S. Paul yn teſtiolaethu, am hyny ni dylem fyth ammau i audyrdod, canys phydlon a dilugur yu, megis y mae S. Auſtin, yn doyded, Ni chreduni (med. ef)

ir Efengil on i baifod audyrdod yr Eglwys gatholic yn peri. Hon yw'r graig ſicer diſygledig a diſerfyl, ag ni al pyrth uphern fyth i gorchfyguna i gorfod. Hon yw'r Dinas a oſoduyd ar ben mynyd, ſy'n gyhoed, yn luſtraid, yn ſplennaid ag yn diſclaer bob amſer, yu chanfod ag yu gueled, ag yn haud dyfod atti, rhag ineb i gadel ai gurthod, a myned ar gyfyrgol i dylyn ag i olrhain locheſau, cilfachau, a chonglau guenuynic yr Hereticiaid, a rho i cluſtiau yu gurando yntuy ſy'n gueidi, uele dyma griſt, uele daccu Criſt, ag felytroi o diurthi hi a'i gadel: yrhain y mae Criſt yn i galu yn fleidiaid rhaibus gued i guyſco a chru yn defaid, meun man aral y mae'n i galu'n ladron a entriaſont i'r tuy dru y'r feneſtr, ag nid tru y'r drus, fely (y darleur haudgar dedfol) glyn yn yſtyfnig urthyr Egluys, ai audyrdod, goguydayn holaul atti ag at dyſceidiaeth yr hen dadau ſantaid, a gochel athrauyaeth dyſceidiaeth, cumpniaeth, a maſnach Hereticaid, canis y dyn heretigaul (med S. Paul) a rybydiuyd

[illegible]aith ne duy, gochel, oblegyd coledig yu. Gurando airiau S. Syprian, puy bynag a el odiurth undeb yr Egluys y mae'n, angenrheidiol cyfri hunu ymysc yr Hereticaid. Alan o'r Egluys nid yu bossibl guasnaethu duu, na salsio i enaid. Am hyny gurando'r Egluys, glyn urth y phyd, ymae hi yn i rodi alan, y neb ni uarendyf y'r Egluys (med Crist i hun) a dyleir i gyfri megis pagan ne Bublican. Ag fely y gorchymynnaf di y duu, yr hun ath geidu yn iras ag yn undebi Egluys, megis y gelych fod yn gyfrannog o'r deduyduch traguydol. O Dinas Paris y dyd cyntaf o sis Maurth, Sefyu dydguyl Deui Sant, 1609.

Dy gyduladur a'th gar,
ROSIER SMYTH.

Heb duu. Heb dim.

DOSPARTH CATHOLIC ar bunciau'r gredo megis dialogiaith rhung y dyscibil a'r Athrau.

D. Puy a eluyr yn gristion?

A. y neb sy'n adef ag yn cymryd arno'f iachys dyscidiaeth Iesu Grist guir duu a guir dyn, ac yn i bropheſydu yn i Egluys, ag am hyny puy bynag syd uir gristion y mae'n cassau ag yn phieidio pob sect ag athranyaeth a gapher meun man aral yn y byd alan o dysceidiaeth Christ, ai Eglnys, megis dysceidiaeth Idenaid, Paganaid, Turciaid, ag Heretigaid. Act. 11. Petri 4.

D. mae syrraf y gelir cynhuyso dyscidiaeth grist?.

A. Guybod o gristion, a chaduy

peiban ſy'n perthynu at doethineb a chyſiounder: Doethineb (megis y mae Saint Auſtin yn dangos) ſyd ai threigyl ynghylch y tair rhinued theologaidd. Sef yu phyd a gobaith a chariad perphaith yrhain ymae duu yn i dou-alt ynomi o'r nefoed, a thruy an-rhydedu rhain yn bur, ag yn deilung yny byd yma, yr ydym yn deduyd ag yn happys. Cyſiounder a gyſiounir druy dau beth, Sef yu druy ochelyd y drug, a gunaethyd y daf, megis y mae Dafyd brophuyd yn doydyd: Gochel drug, a guna daf. Ag fal hyn o'r duy phynon yma, Sef yu odoethineb a chyſiaunder, y gelir tynu alan yn eſmuyth bob peth aral ſy'n angen-rheidiol a chymeſur i aun i dyſca Criſtion, ag yu duyn i ſynu yny mod y dylae.

Lib. 2. retract. cap. 63.

Euch. cap. 1 & 3.

Pſal. 36. Petri 1. cap. 3

D. beth eynta a dradodir yn y dyſceidiaeth Griſtnogaul?

A. phyd

Ar Phydhon yu drus yn iechid ni, canys heb hon, ni al neb nag adanabod duu, na galu am i help, na i uasanaethu, na rhyngu bod ido yn y byd yma: oblegyd rhaid i'r neb adelof at duu gredu (med yr Apostol) a'r neb ni chredaf a golir ag a damnir, ag syd eusus guedi maru druy farn Crist. Cap. 1. Hebre. 11. August Serm. 39. de temp. & Serm 1. de verb.

D. Beth yu hyny a eluir y phyd?

Leo. Ser. 4. de Nat. dini.

A. Phyd yu rhod duu i oleuo dyn, i lynu urtho ef yn diogel, agi gredu'n sicir i'r pethau a anirgelod duu i hun; ag a rodod alan yn yr Egluys yni yu gredu: megis fod duu yn dri ag yn vn, a guneythyd y byd o dim, a guneythyd duu yn dyn, a godef o hono ef Varufolaeth dros dyuion, a bod Mair yn forwyn, ag yn fam i duu, ag y cyfyd y meirw dyd farn, ag yr ailenir dyn druy'r dur a'r ysbryd glan, a bod Crist yn holaul yn duu ag yn dyn yn yr Aberth Matt. 16. Ioan 1. Eph. 1. heb. 11. Basil. de fidei. confes. Bernard Epi. 190 1. Ioan. cap. 5. Genes. 1. Ioan. 1. Alias o phant

[illegible] 2. Corinth 15. Ioan 3.

Concil Eph. can. 13. Luc. 1. & Corinth. 15.

Eccles. 3. Corinth 2. ca. Esai. 7.

Basil. in psal. 135 & in moralib. regula 88. cap. 21. Greg. Hon. in Euã. 26. Chris. in 1. ad Corint. Hom. 2. Corint. 10. Luce 1.

ne yn Encharistien, a phob cyfryu ḍirgelion erail anrhydedys, a anirgeloḍ duu i hun, ag na eḷir moi compasu druy resum na synuyr dyn, ond yn unic druy phyḍ i ḍerbyn ai credu. Am yrhain y dyuad y prophuyd, o nis creduch ni ḍealtuch. Nid ydiu'r phyḍ yn edrych am helynt na churs natur, nag yn coelio i brofedigaeth synuyr, nag yn rhoi i phuys ar Rym ne resum dyn, onid ar rinueḍ ne auḍyrdod duu, gan gymeryd hyn yn le siccruyd diogel. Cans ni al y guir traguydaul, a'r penaf (yrhun yu duu) adel fyth i siomi, na siomi erail, ag am hyny priodol ag aḍas i'r phyḍ yu caethiuof synuyr a dealt naturiol i fod yn vfuḍ i Grist, ag i goelio yu eiriau, i'r hun nid yu dim amhosibl: eythyr hauḍ iḍo gyflouni pob gair, a'r phyḍ yma (meḍ Saint Chrysostomus) yu goleni'r Enaid, porth y bouyd a Sylfaen yr iechyd ar salfadigaeth traguydaul.

D. aoes grynnodeb byr i dangos yr hol phyd a summ o'r ceubul, ar y syd raid i ni credu?

Euseb. Emissa. Homil. 2. Cyril. cata.

A. oes hony mae'r daudeg Abostolion yn i dradydu, ag a eluir yn ladin Symbolum Apostolorum. Sef yu gild yr Apostolion, oblegyd bod pob vn o honynt yn dodi i bunc urth i gunaethyr hi a hon a ranuyd yn adas meun daudeg punc, megis iroed daudeg o'r Apostolion bendigedig a'rhain yn nessaf at Grist yn sylfaenuyr o'r phyd gristnogaul, guaith tyladuy i'r cyfriu auduriaid, y Symbolem hon syd nod splenydig druy'r hony gelir adanabod a barnu rhagoriaeth rhung y cristionar anuu, yr hun nid yu yn prophesydu phyd yn y byd, ne or hyn leiaf yn prophesudu iaun phyd Grist.

D. mae punciau y Symbolen yma?

1. A. Y ruyfi'n credu yn Nuu'r Tad hol aluaug, creadur nef a daear

Chrysost. hom. 1. & 2.

2. Ag yn Iesu Grist i vnig fab yn

In ſymb Ruffin in ſymb Auguſt in Enchirid. Item in lib. 4. de ſym. ad catech. Euſeb. Emiſc. homil. 1. & 2. in Sym. Chryſolog. ſerm. 57. 58 59. 60.

argluyd ni. Conceptus

3. *A gagad, ne ag gyngaphuyd druy'r ysbryd glan ag a anuyd o V air foruyn.*
4. *A. diodefod dan Pontio Pilato, a groeshoeliuyd, a fu faru ag a gladuyd.*
5. *A dyſcynnod i V phern, ag y trydyd dyd, ef a godod o faru i fuu.*
6. *A eſcynod i'r nefoed, ag ſy'n eiſted ar dehaulau duu holaluaul.*
7. *O dyno i dau i farnu'r buu a'r maru.*
8. *Ruyf i yn credu yn yr ysbryd glan,*
9. *Fod Egluys ſantaidgatholic, cyprhedeinruyd ne cymmundod y ſaint.*
10. *Madauaint pechodau.*
11. *Ail gyfodiad y cnaud.*
12. *A rbouyd traguydol.*

D. *mae'r modpenafy mae'r gairiau yma o'r gredo yn i amcanu ag yn tynu atto.*

Hiere. 9. Ioan. 17. 1.

A. At hun y mae'n tynu: Sef i gael guir uybodaeth o duu a'r pethau duuiol ſyd

angenrhaidiaul i baub urthynt i fuu yn daf ag yn deduyd, yma y mae'r le cyntaf a'r penaf ſyd i dynabod duu, na'r hun ni elir medul byth dim, na muy, na guel, na doethachnag ef, hun ſy'n vn, ag yn ſymlig meun ſud ne naturiaeth, yn uahanedig meun tri pherſon, mal y credir yn ſiccir oſtaen pob peth, fod y Tad yn un, y Mab yn un aral ar ysbryd glan yn vn aral, y tad yu hunu a Enilod ne a generoed i fab er oes oeſoed, phynon a gunaethyrur pob peth, y mab a anuyd o ſyluedy tad, ſyd rybrynur a ſalfadyd y byd, yr ysbryd glan, yr hun a eluir hefyd yn Gyſſurur ne gonſolydur ag ſy'n gofernyduyr Eglwys yn yphyd, Sef yu phydlonion Criſtſ: fely y tri yma ſyd vn peth, Sef yu vn guir, traguydaul, anfeſuraul, ag angryphredigaul duu. Am hyny guychymae'r tair rhanyma o'r Symbolen ne'r gredo, yn cydatteb i'r anrhanedigaul a ſantaidiaf drindod, S. yu y rhan gyntaf ynghylch y creaduriaeth, yr ail ynghylch y rybry-

Col. 1. 1. Pet. 1. Sap. 13. Aug. confeſ. lib. 1. cap. 4. Aug. lib. de fide & ſymb. cap. 9. Matth. 28. Achan. in ſymb. Pſal. 109. Heb. 1. 1. Ioa. 4 Ioan. 15 Tim. 1. Hiere. 32.

niad, y trydyd ynghylch y Santaidiad.

D. *Beth ſyd yn dealt wrth y punc cyntaf o'r Symbolen ne'r gredo. S. yn yrwyfi in credu yn Nuw'r tad?*

Deut. 6 Matth. 4. 1. Timoth. 1 Geneſ. 1. Eſaiæ 53. Iob 57. Eccleſ. 3. Luc. 1. Hier. 32 Sap. 16. Reg. 2 Ad opuit. Pſal. 2 Heb. 1 Roman. 8 Pſal. 32. Coloſſ. 1. Matt. 6. Heb. 13. 1. Timoth. 4 & 6. Iacob. 1 2. Cor. 1

A. Y mae'n dangos ini yn gyntaf, fod dyn yn un, a bod y perſon cyntaf yn y duuiolaeth yn dad nefaul, traguydaul, gorucha ſ o alu a maured, i'r hun nid oes dim anhaud, ne amhoſibl ido yu uneythyr, yn lau'r hun ymae peri ſ bob peth fuu ne faru, yr vn Tad a enilod er yr hol oes oeſoed fab, ag anſodfabod ninne yn blant ido yn amſer y gras yma, ag y mae'n gymmeint i rym megis y galau truy i vnic air uneythyr o dim nid yn vnic bob peth gueledigaul: eythyr i gadu yn uaſtad ai goferny du druy oruchaf daioni a doethineb, o diurth hun ymae yn dyfod, ag at efymae bob peth yn tuedu ag yn goguydo, efo yu tad y leuyrchau a'r goleini, gidar hun nid

oes gyfneuidiad yn y byd, tad y trigardau a duu y cyſſurdeb, (ag ifod yn fyr) ymae ef yn gyfryu beth ag yn gymmaint i alu megis argais, neurth amnaid fod holbethau nefaul, daiaraul, ag vphernaul yn i vfud hau ag yn moſtung ido, a thruy imdyphin ai a gaduadigaeth ef yr ydymi ym hob blinder a pheriglyn diainc heb dim drug ermaint a fythont.

Act.14. Luc.12. Gen.17 Pſal.16. & 90. Pſal. 124 Iob. 41.1. Cor.10. Eccleſ. 33.

D. Bethy ſydynyr ail punc o'r gredo Sef yruyſi n credu yn Ieſu Griſt?

A. ymae ef yn dangos yr ail Perſon yny duuoliaeth, S. yu Ieſu Griſt, guir duu a guir dyn, a aluyd yn Ieſu Griſt, S. yu yn Salfadyd y bobl, ag yn Griſt, S. yu Enyniaug druy'r ysbryd glan, ag yn laun o bob gras a guirioned, yn Meſſias a'n guaredyd, yn brenin, a'n Pontific, a'n Archeſcob ni, yrhun ſy'n dal penaithiad ym hob peth, ag yn yrhun ymae holgyflounrhuyd duuoled yn aros ag yn trigo yn

1. Ioã. 5. Luc 1. Matt. 1. Eſa. 9. Luc 4. Pſal. 44 Acto. 4 Reg. 10 16. Ioan 1. Apo. 17. Hebr. 3. 1. Petri. Coloſſ. 10.

Gorpholeḍ, ymae'n dangos fod yr un yn
unic fab duu, ụedi eni ortad ụedi ynil er
oes oesoeḍ, yn naturiol yn gysyluedaul yn
gụbụl gyngrym ne gyfegual ag ef oran i
duụiolaeth: ag ynargluyḍ, i baụbsy'n credu
iḍo, megis rhai ụedi yn coli a darfasai
iḍo ef a hono i hun i gụared o gaethiụed
ag altudieth Sathan. A phen oeḍym dan
iau pechod a choledigaeth ef an rhybryn-
noḍ ynhaelfaụr, ef hefyḍ sy'n argluydhau
ar yr anuụ: cans pob peth syḍ sufieithedig
dan i draed ef. Ag yna yn benaf y'r am
ḍengys i hunan yn argluyḍ ag yn frenin
brenhinoeḍ, yn olau i'r drug ag yr hol fyd,
pen dynno dan i lau ai alu i hol elynnion
i gyd yr un le, hebḍiolch y dynt, ag ai lysc
megis us a than aniphoḍedic, hụn yụ'r
mab anuyl, hụn yụ yn Emmanuel ni, hụn
yụ'r meistr a ḍylem i ụrando, ag nid oes
henụ aral dan i nef a roduyḍ i ḍynion,
yn yrhụn i dylem gael yn salfadigaeth
onid yn hụn.

Ephe. 1. Ioan. 10 Heb. 1. Apoc. 1 Matth. 28. Dan 7. Philip. 2.

Luc 15. Rom. 8 1. Cor. 6. Pet. 1

Psal. 8 Rom. 14.

Apoc. 19. Matth. 25. Cor. 15. Psal. 109.

Luc. 3. Matth. 3. Luc. 20. Matth. 17. Esa. 7.

D. Beth y mae y trydyḍ pụnc o'r gredo yn i broponuḍu, n'en i osod alan yụ gredu, Sef a gyngaphuyd o'r ysbryd glan?

A. y ma'en testoliaethu ḍarfod i'r un rhyụ argluyḍ a gad ag a generụyd o duụ'r tad, er oes oesoeḍ heb un fam, ag er yn muyn ni a ḍescynoḍ i laụr o'r nefoeḍ, ag a gymeroḍ arno ef naturiaeth dyn, ag yn ynaturiaeth yma a gyngaphuyd yn ninas Natsareth, ag a anụyd dan yr Imerodr Augustus o'r ḍifagl foruyn heb dad, yn ninas Bethleem druy rym rhinụeḍ a galu'r ysbryd glan a oeḍ yn gụaithio ynthi hi, a pheth syḍ fuy narhyfeḍ: gụneythyd y gair yn gnaụd, a duụ yn ḍyn, a Mair bob un o'r ḍau yn fam i ḍuụ, ag yn foruyn hefyd: y cyngaphiad amserol yma o fab duụ, ai enidigaeth sy'n cynuys dechreuad salfadigaeth a rhyḍbryniad dyn, ag y sy'n siampler ne phorm o'n ail enidigaeth ni, druy'r hon y mae'n damụain i blant mel-

Mich. 5
Ioan. 1
Esa. 53
Ioan. 6.
Galat. 4
Rom. 1.
Matth. 1. Luc. 1
Esa. 7
Hier. 31
Cõcil. Ephes. cano. 13
Hieron in Heluidiũ.
Ambro. in epist. 81.
Ezechiel. 44.

tigedig Ada a gyngaphuyd o had amhur lugredig, ag a anuyd yn blant y digofaint, gael i purhau, fal y gelid i guneythyr druy Grift, o rai cnaudol yn ysbrydol, ag yn uir feibion i duu, yrhun y bu ulys y tad traguydaul, fod yr etholedig yn gydphyrfaul ag yn debig ido i hun, mal y galai ef, fod (megis y mae Paul yr Apoftol yn doydyd) yn Brifenid yn myfc lauer o frodyr.

Ioan. 3 1. Pet. 2 Heb. 2. Tit. 3. Iob. 14. Epheſ. 2 Rom. 6

Rom. 8

Primo genitus

D. Beth ymae'r peduery d punc yn i gynuys, Sef yu diodef o honof dan Pontius Pylatus.

Actor. 10. Matt 27. Marc 15. Eſa. 50. Ioã. 1. Heb. 7. Pet. 1 cap. 2. Apoc. 1 1. Tim. 6. Rom 5. Ioã. 15

A. mae'n dangos darfod i Grift o'r diued, uneythyr peno'n athrauynid ruy uneythir gurthiau, ag fely er i fod yn difagul, ag megis Oen guirionaf ol, ag hefyd yn duu anfaruodigaul, etto i dangos i hol berphaithiaf ferch ai gariad tu ag attomi, ef a diodefod yn ulyfcar ar lau dynion fcelerdraf a'r poenau muyaf, toftaf, chueruaf, amarundotaf, a alai fod: ag ermuyn

Ioan. 18 Matt. 27 Marc. 15 Luc.

hyny ni urthodod ag ni lysod ef farn yr anghyfion ustus Pontius Pilatus, peirhon ai fod yn gamaf ol, na chuaith y groes er i bod yn uarthusaf gosbedigaeth a alai fod, gan gymeryd drosomi farufolaeth greulonaf, heb urthod iglaḍedigaeth meun mynuent un aral, megis i galau yn holaul i roi hun dros dynion yn fuu ag yn faru, yr hun diodefaint Crist, i uaed, i groes, i archolion a'i farufolaeth, sy'n uastad yn rhodi, ag yn ystyn ini bechaduriaid gussur, iechyd, nerth a bouyd, megis os ufudhaun a chydodef a'n pen, felyy caun yn cydogonedu gidag ef, cans perphaithruyd i gnaud ef syd achlysyr salfadigaeth traguydaul i baub syd yn ufudhau ido.

Ioan. 19. Act. 13. Sap. 2. Heb 12. Phil. 2. Rom. 5. Matth. 17. Tit. 2. Gal. 1. Esa. 53. Pet. 1. 1. Ioã. 1. Apo. 1. Ephes. 1. Rom. 8. 2. Cor. 1. 2 Tim. 2. Heb. 5.

D. *Pa les a phruyth syd ini urth uneythyr lun y groes a'n byssed, ag urth groesi yn talcen a hi?*

A. yn uir duuoldeb yn henafiaid gynt, defod uastadel yr Egluys a dradodod

Tertul. de coron. mili.

Basil. de spi. san. cap. 27. August de Car. iud. ca. 20. & tract. in Ioā. 118 Nazian orat. 1. in Iuliā. Hieron ad Eust. de cust. virg. epist. 22. & ad Fabiol. de veste sacer. epist. 118. & in cap. 9 Ezesc. Chrys. hom. 55 in Matt Effræm in lib. 7 de vera pœn. c. 3. Ori. hom. 8. in diuers. Euang. Ruff. lib. 2. Eccles. hist. ca. 4

ag a orchymynod y dedfyma ini, ag yn gyntaf yrydys druy hon yn yncyphroi i fyfyrio yn ſerchog ag yn garedig y dirfaur dirgeled myſter a'r daioni a gyflaunuyd ar y groes ag a roduyd yni yn helaeth ag yn diandlaud.

Guedi hyny ef an ſumbulir i ſafedluyn diſygl y guir a'r ſantaid ogoned ag angor yn hol ſalfadigaeth ni yngrhoes yn argluyd.

Heb lau ymae hynyn teſtiolaeth nad oes ini dim a unelom a'r Ideuon ag a'r Paganiad gelynion croes (riſt, ond yn bod ni yn propheſu yn dirus ag yn diamau (yn erbyn yr hain i gyd) yn argluyd Ieſu Griſt, hun yr ydymi yn adoli hun ag roes hoeliuyd droſomi, hefyd truy'r aruyd yma i'r anogir ni i roi ſerch ar i diodefaint, ermuyn couleidio'r groes ai phord yn ulyſcar gan fod Criſt yn uydyd ini o'r blaen, os chuenychun ogoned traguydaul, yrhun a dylem i gyd i dymuno.

Hefyd yr ydym truy hyn yn gofyn

arfau gorchfigaul yn erbyn Satan a ḍarfu gynt i orfod ai guympo druy nerth i groes: eythyr hefyḍ yrydym fely yn ymarfoḍi yn erbyn hol urthuynebuyr yn salfadigaeth.

Ag i orphen ni a gippiun yr aruyḍ golustraiḍ yma Buḍygoliaeth y groes, er muyn cael muy o ruyḍeb urth dechrau, a muy o gynyḍ, urth fyned rhagom yn y pethau a uneler, ag ar hyder gorchfygu truy nerth yr aruyḍ hun, ni a fynychun ḍoedyd yn ḍiarsuyd yn enu'r tad a'r mab a'r ysbryd glan.

D. Beth y mae'r pumed punc yn i ossod alan yu gadu, Sef dyscynoḍ i uphern, ag a godoḍ o faru i fuu?

A. mae ef yn dyscu fyned o Grist a phenedryḍu hyd uphern, o rhan i enaid, uedi iḍo faru ar y groes, yu ḍangos i hun yn orchfygur ar angau a Satan, a hefyd yn rhyḍhaur i'r tadau a oeḍynt yn trigo yn y

29. Niceph. li. 18. cap. 30. Cyril. cate. 4. & 13. Chryso in demonst. Christ. sit Deo. trophaũ. Matth. 16. Luc. 9. 1. Pet. cap. 3.

Athan. in vita S. Antõ. Hiero. in vita B. Hilarionis, Ignat. ad Phil.

Ambros. serm. 4.

Euseb. lib. 1. & 2. de vi Cõstãtini. niceph. lib. 8. cap. 3. & lib. 7. ca. 47. & 49.

Mach.9. 1.Pet.3 Col.2.c Eccli. 24.Act. 2.Oseæ 13.Iren. lib.5. in fine. Aug.epist.99. & 57,& lib.20. de ciui. Dei.ca. 15.Item serm. 137.de temp. Hiron. in ca.4. ad Eph. & In Ose.13. Matt.12 c.Heb. 2.Mar. 16.Apo 1. Ioã.2 Colos.1 c.1.Cor 15.

lymbo, eythyr o ran y corph truy'r hun yroed yn gorfed yn y bed: codi o'r un Crist i fuu yn anfaruedigaul ag yn o gonedys prifenid o'r meiru trydiau yn ol i farufolaeth (pan i chuenychod) ef a doeth o uphern yn driunphyd: truy'r guaith rhyfedaul hunu mae'n rhoi cyssur ag yn dyscu fod yr etholedig yn cael i guared o lau a mediant Satan angau ag uphern, ymae ef yn cymel ag yn cynig y gras yma i baub, megis y galo y saul sy'n credu yngrist godi o'i uydiau i rinued, oangau pechod, i fouyd gras, ag yn niued hol oessoed, o angau'r corph, i fouyd anfaruedigaul cans hunu a godod Iesu, a'n cyfyd ninau gyd'ag Iesu.

D. Beth syd gen y chueched punc yni yu gredu, S. derchafod i'r nefoed?

Rom.6 Col.3 Philip. 3.Ephes 4.1. Pet 11.Cor Thess

A. mae'n manegi ascenu o'r argluyd Iesu ir nefoed y deugeinfed dyd uedi guneythyr pen ar y guaith oed i rybrynu dyn, ag ym dangos o honofe yn fuu drachefn i'r eido a

tadarnhau guirione di adgodiad truy lauer o argufenau mal y gelid gueled i derchafu ef o ran i natur dynaul uuch ben bob peth ai fod yn enuog ai faulhau yn benaf gen baub, ymae fely yr argluyd yn eiſted yny nefoed ar deheulau nerth duu yn gymaint i alu a'r tad, yn gofernydu pob peth yn ſplenydu meun duuonig fuuoled: canys hyn yu eiſted ar deheulau r tad, yr aſceniad hyfrydlaun yma i Griſt, ſyd ſylfaen a ſiccruyd i'n phyd a'n gobaith ni, mal y gobeithiun yr aiph yr aelodau os bydant ufud i r pen, a glynu urtho, ef, le'r aeth y pen o'r blaen, uedi ido ſathru i elynion tan i draed, yny diued mi af (heb ef) i baratoi le i chui.

Pſal. 8.7 46. &. 8 marc. 19 Ioan. 3. Act. 1 Epheſ. 4 Col. 3 Heb. 1 Pet. Ioã 2. & 20. Pſal 109 Act. 7. & 22. 1. Cor. 15. Epheſ. 1 Mar. 28 Aug. lib de fide & ſym. P. 7. Heb. 5. Rom. 8 Tim. 2 Ioan. Ioan. 1

D. Beth a ryd y ſaithfed bunc yu gredu, S. o dyno ef dau i varnu?

A. y mae'n proponydu'r dyd braud diuaethaf, pen deſcenof Criſt drachefn o'r nef goruchaf meun cnaud dyn yn uſtus

Pſal. 96 Eſa. 3. c. 66. Ioã 5. Sopho. 1.

Malac. 4 Ioel.3 *oergrynedig i farnu'r holfyd, ag yno yn*
eiſted yn i Vaured i hunan, ef a dal yn
Matt.25 24. Luc 21. rhef 4.1 Cor 15. Thef 2.2. Pet. 3. *gyhoed i bob dyn a roli uaſthredoed, gan*
Varnu pob un hyd y'r eithaf, y rhai daf a
rhai drug, pa fod bynag i godiuedir yntuy
y dyd hunu ai etto yn fuu yn i cnaud, ai
Matth. 2 Sap. 1 Eſa. 66. Eccleſ 12. rom 2. Apoc 20. Baſil epiſt. ad virginē elapsā. Hier 17 Heb. 4. Gal. 6. Thef. 4 Eccleſ. 12.2. Cor. 5 Rom 14 Matth. 10. Iob. 24. *gu: di maru o'r blaen: urth hyn yn rhybydir*
ni i fuu'n gyfruyſach ag yn unionach,
po ſiccraf a fo genym fod yn guaithredoed
ni, yn medulyau, a chyflur yn hol fouyd
ſy'n uaſtad garbron lygaid duu, hun
ſy'n gueled pob peth, ag yn i barnu'n gy-
fiaun canys y mae'r chuiliedur calonnau
hunu ſy'n uſtus uniaun a chyfiaun ag yn
dialur camuedau, i'r hun y mae'n rhaid i
ni i gyd ymdangos garbron i orſed, bob un
i derbyn gentho, yn ol aunaeth yn y corph
ai daf ai drug, a gni ad dim daf ar auneler
yny bouyd yma heb i obruy, na dim a
uneler ar gam heb ig osbi.

D. mae ſumne grynodeb y punciau o'r
ail perſon yny duuoled.

Aphyd

A. lyma'r ſumfod Criſt yn uir duu ag yn uir dyn, yr hun a dechreuod aza orphenod y rhyfediz uaith o rybryniad dyn ai fod ef yn phord yn uirioned ac yn fouyd truy'r hun yn unig, pen darfaſſai'n coli i gyd, i couſſomi yn ſalfaduynguared a'ncymmodi a duu'r tad: ynghylch y daioni a'r les ſy'n dyfod o'r rhybryniad yma, ef ayſcrifenuyd felyn. Ef a'm dangoſſod rhad duu yn ſalfadyd nii bob dyn, tan dyſcu i ni fuu yn ſobraid, yn gyfiaun, ag yn duuiaul yn y byd yma, tru ymurthod ag annuoled ag a chuantau bydaul gan dyſcuyl y guyn-fydedig obaith, a dyfodiad y maur duu a'n ſalfadyd ni Ieſu Criſt yrhun ai rhodod i hun droſom i er muyn yn rhybrynu o bob enuired, a'nglanhau yn bobl gymeraduy ido ef ag yn dylynuyr gueithredoed daf, ag fely med yr Apoſtol Paul meun man aral: yrydymi yn greadurieth duu i hun, guedi'n creu druy Criſt meun guaith-redoed daf a darfaſau i dun i paratoi ini i rodio ynthynt, a thrachefu: Criſt a fu

Ioan. 1
1. Ioã. 5
Ephe. 1
Ioã. 14.
Rom. 5
Apoc. 1
1. Tim.
2. Rom
3. Tit. 2
Ephe. 2
2. Cor 5
1. Tim.
2. Rom
3. Eſa. 3
Iacob.
4. Ioan.
13. 1.
Ioan. 2

faru(medef) drosbaub, er muyni baub
ſy'n buu,fuu nid ydynt i hunain, ondi
uaſnaethu hunu a fu faru, ag a gododo
1. Pet. 2 2. Tim. 4. Rom 2. *faru i fuu er i muy nhuythau. Am hyn*
mae n rhaid gochel cyfeiliorni rheini ſy'n
cypheſſu Criſt, nid yn gyfi, ond megis
guedii darnio, trefythont yn cydanabod yn
unig i fod ef yn gyfrungur ag yn
rhybrynur, y dylem roi n goglyd arno ef
ond ni chymerant dim o hono ef yn gy-
freithyd a dylid ufudhau i orchymunion,
ne yn ſiamlar pob rhynued yu dylyn ai
anrhydedu: ne n uſtus cyfiaun a dal i baub
yn diamau i dyledys obruy negoſpedigaeth

D. *Bethy mae'r uythfed punc yn i dyſcu,*
S. ydduyfyn gredu yn yr ysbrydglan.

Symbol. Cõſtãtin. & Concil Florẽtin. *A. mae'n a adyſcu y trydyd perſon*
yn y drindod S. yr ysbrydglan, yrhun ſy'n
dyfod ag yn dielu o'r tad a'r mab yn uir
duu, yn gyndragouyd yn ogoniant yn
gyfegual ag yn gyſſylued anhuy yldau, ag

a ḍylid i aḍoli a'run phyḍ a truy'r un faint anrhydeḍ ne ogoneḍ a nhuythau, hụn yu'r cyssolyḍ ag athrau'r gụirioneḍ yrhụn syḍ ai rad ag ai ḍonniau yn goleuo calonau'r saụl sy'n credu, ag yn purhau ag yn i santeiḍio, ag yn i phyrfhau ymhob santeiḍruyd, hụnu yụ guystl yn etifeḍiaeth ni, yn gymorthuy y'n gụendid. yn rhoḍi ag yn rhannu i baụb amryu donnau yn y mod y my nef.

Gen. 1 Psalm. 103. Iob. 24 Matth. 28. Ioã. 5. Rom 8. Cor. 6. Psal. 30. Esa. 1 Gal. 6. 5. Rom 5. Ephes. 1. Rom 8. 11. Cor. 10

D. *Beth y mae'r naụed pụnc yn i adyscu. S yḍuyf yn credu foḍ Egluys santaiḍ gatholic.*

A. Mae'n dangos yr Egluys, S. cynnileid-fa ụeledigaụl o hoḷ phyḍloniaid Crist, dros yr hon y gụnaeth ag y dioḍefoḍ mab duụ pob peth aunaeth ag a ḍioḍefoḍ, ụedi iḍo gymeryd naturieth dyn ag yn athrauy yn gyntaf fod hon yn un ag yn gytun yn y phyḍ, ag athrauyaeth phyḍ, ag yn ministryḍiaeth y sagrafennau, yr hon

Matt. 5 Cant. 4 Ephe. 4 Ioan. 11 Ephes. 5. 10. 14 16. Act. 1 August in ench cao. 56. Ephe. 4 Psal. 118

hefyd sy'n caeli gafernyḍu ai chadu meun
1.Tim. 3 undeb, dan un pen S.Crist, a than un
Pontifig penaf i raglau ef ar y ḍaear, guedi
I.Ioā. 1 Rom. 12. hyn y mae' hon yn santaiḍ, am fod Crist
yn i santeiḍio hi yn uastad truy'r ysbryd
2.Cor. 1. glan, mal na bytho byth heb uyr santeiḍiol
Ephe. 4. ynthi: Ar n b a fo alan o'r gymyunfa hon,
ibidem ni aḷ fyth fod yn gyfranol or guir
Mat.28 santeiḍruyḍ, yn drydyḍ mae'n dangos i
Gene 7 bod hi yn gatholig. S. yn hoḷaug yn
gimmaint ai bod uedi thanu ar hyd ag ar
led truy'r hol fyd, ag yn derbyn, yn cloi ag
Matth. 18.1 yn salfaḍu megis meun muynues mamauḷ
1 Cor. 5. hoḷ ḍynion o hoḷ amserau, o hol leoḍ, a hoḷ
nasuinau syḍ yn cytuno yn phyḍ ag
athrauyaeth. Crist mae'n ysbyssu ynbeduẹ-
ryḍ fod yn hon gymmundod gyphredinfa
Gen.7 saint. S. bod yrhain sy'n yr Egluys, megis
De sim præla meun tuy ne deulu duu, yn cadu rhyu
gymdeithas diuahanedig ag undeb rhyng-
thynt, ag mal meun un corph, y naiḷ
fembren, sy'n cymmorthuy'r ḷal: fely y
mae'n huythau yn helpu i giliḍ, urth

gyfranu guaſanaeth, rhyglydianau; a guediau y nail yr lal, ymyſc yrhain y mae undeb phyd ag athrauyaeth gynghordiaul arfer unucdaul o'r ſagrafenau: yrhain hefyd ſyd ofa'lys yn caduundeb yrysbryd meun rhuymyn heduch, pa fath gyliorni bynag ne anghytundeb a ſurthio, Mae'n y gymunfa yma, nid yn unig y ſaint, n'er guir daſo'r Egluys filydaul ſyd ary daear, megis yn perindotta, eythyr hefyd yrhai guyn fydedig i gyd o'r Egluys ſy ny nefoed yn triumphyd u gida Chriſt yn deduydaf ol, heb lau yr hain, yma i cynhuyſſir eneidiau rhai duuiaul, yrhain a aethont o'r byd yma heb gaphel etto mor guyn-fidedig deduyduch. Llb. 4 de ſym bolo. Lucæ 24

Alan o gymundod y ſaint (megis gynt alan o arch Noe hen) y mae diſtrouiaeth diamau heb obaith ſalfadigaeth yn ybyd y dynion, nag i'r Ideuon, ne'r Ethnigion ni chymeraſſunt mo phyd yr Egluys erioed n'ag i'r heredigiaid a'madouſſont a hi, ag ai lugraſſont guedi i chymerid unuaith, Actо. Ioã. 2

adigiaid a'amadouſſont a
deb yr Egluys, na chuaith y
unedig a darfu idynt heudu
dirfaur achos (megis membranau
nig) gael i torri ai guahanu o diurth
h yr Egluys. Arfath yma i gyd (am
adydynt yn perthyn at yr Egluys ai
ſantaidiaul cymmundaud) ny alant fyth
fod yn gyfranog o'r duuionig ras, a'r
ſalfadigaeth traguydaul onis cymmodir
yntuy ai duyn dracheſu i'r Egluys o'r hon
i'r aethont alan truy i baiau i hunain.
Canys guir yu rheol S. Syprian a S. Auſtin
ni chaiph hunu mo duu yn dad, ni fyno'r
Egluys yn fam.

D. *Beth a proponydaf y degfed punc o'r*
gredo S. yu madeuaint pechodau.

A. *heb hyn ni eil neb fod yn gyſion, nag yn*
ſaluedig i gael y tryſſor goludfaur hunu a
brynnod Criſt imi ai ſurferuinaul
farfolaeth, ag ai uerthfauruaed i'r holfyd

rhag pechodau ai poenaụ tr
hụn dryssor ni byḍ neb cyfran
truy ras Crist, onid y rhai a m
Egluys truy phyḍ a bedyḍ, ag a s
ụastad yn i undeb ai hufuḍdoḍ, y
at hyn y rhai a ụir benydiant
pechodau a ụnaethont gụedi i bedyḍio,
a arferant yn gyfaḍas yr eliau a ordiniaụ
Crist, yn erbyn y rhain, S. y sagrafennau.
At hụn y mae'r galụ yn perthynu, a
elụir galụ'r goriadau a ḍarfu i Grist er Ioan. 4 Math. 25.
muyn maḍau pechodau truyḍo i roḍi i
ụenidogion yr Egluys yn benaf i Bedr
abostol ai successyḍion cyphreithlon. S. y
gofernydion penaf o'r Egluys.

D. Beth sy gen yr unfed pụnc arḍ eg.

Adgyfoḍiad y cnauḍ, aḍamuyniaf i'r drug
ag ir daf, y dyḍ diụaethaf canys y corph
yma syḍ frau a hyfgụymp, ac yn sufiedig y
laụer o glụyfau, a luḍed cynhuynaụl, a Cor. 2 Ioã. 17
gụedi maru, a ḍigụyḍ i'r pryfed i fuyttaf, a Rom. 7 Tit. 1
fyḍ fuụ ailụaith pryd hunụ pen gụnner yr

holfeiru y dyd diuaethaf, a Chriſt uſtus yni galui fouyd agi farn, fely rhaid ini baubyn i gnaud ympirio garbron gorſed Criſt mal i galo pob un yn dianach, ag yn difade derbyn y peth a delir ido yn gyfan, am a unaethyn y corph, bid ef drug bid ef
Luc. 12 daf ag ef a ciph yrhai aunaeth y daioni, rhagdyut i adgodiad bouyd, a'r neb
Marth. 25 aunaeth drugioni i adgodiad barnadigaeth a phoen. dragu ydaul, y dyn daf a godefgar a gymer guſſur truy'r phyd yma meun
Eze. 18. Rom. 6 blinder a luded muyaf hol, mal i galo doydyd, ie yny punc diuaethaf oi fouyd urth drengu, mi a unfod fyrhybrynur i yn fuu ag i codaf inau o'r daear yn y dyd dyuaethaf, ag y'rhoir o'm amgylch fy ngrhoen drachefn, ag i cafueled duu yn fy ngnhaud: doeth a chal yu'rheini yn uir fy'n guibio ag yn rhuymo'r membranau daearaul a chyfeirioyma i uaſnaethucyfiauned a rhinued ag ym paratoi'r corph yma megis leſter purlan i derbyn guynfidediganfaruoledigaeth.

D. Beth yụ y pụnc diụaethaf.

A. Ymae'n traethu ynghylch y bouyd traguyḍaul y'rhụn nid oes ammau nas gadeuir i'r etholedig yn ol i farụ, a hụnụ yụ phruyth a phenod phyḍ, gobaith, a ḍiodefeḍ ag ymarfereḍ cristnogaul. Er muyn cael y bouyd hụnụ, ni ḍylae'r dyn sy'n guirgredu, farnu na guaith duuiol yn y byd yn galeḍ, na lafur yn drụm, ne'n rhyflin na dolur yn rhyfaruinaul, n'ar amser yn rhy hir, urth ueithio ne ḍiodef i ynil hụn. Os ydiu'r bouyd yma sy'n laụn o flinder a thryeni mor hyfryd genym ag na fernir dim velusach, n'ag a ḍymuner yn fuy n'ag ef: ba amcan muy y dylid barnu hụnụ yn uel, syḍ mor hyfryduеḍ, ag na chlouir, ag nid ofnir na drug na phoen yntho, yrhụn syḍ bob amser yn gorlenui o lyuenyḍ, o lauenyḍ dyleithruyd, a digrifuch nefol heb ḍiueḍu byth. Am yr hụn fouyd y doedau Grist, na ofnuch fy rhai bach, oblegyd rhyngu boḍ i'ch tad

Luc. 12

Matth. 15.

Au. de iu. Dei. lib 22. & lib. 3. de lib. arbit.

chui, rhodi i chui deirnas, yrhun hefyd dydbraud dyuaethaf a dyuaed urth, yr etholedigion, douch bendigedigion fy'n had, medianuch y deyrnas a drefnuyd i chui er pan gyſſafedluydy byd eythyr urth y'r hai anuuiol gan doydyd fal hyn, euchi y meltigedigion y maith o diurthyf i'r tan tragouydaul a baratouyd i diaul ag yu angelion. Ag nid yu hynyn perthyn yn unig i'r Paganiaid, Ideuon, Heredigiaid, Suſmadigiaid ar maurdrug bechadur hoenaid: Eythyr hefyd at y criſtnogion ſy'n meiru meun pechod maruol, yny diued ef dafluyd y claus yma Amen, i dangos fod grym y deſtiolaeth yma o'r phyd a'r gyphes criſtnogaul yn difreg ag yn diamau.

Hierō. ad Marcellam epiſt. 137.

D. Beth yu crynnodeb hol bunciau r gredo?

Heb. 5 Petr. 3 Pet. 1

A. Ruy fi yn credu am calon, ag yn adef am genau fod yr arglwyd duu, y muyaf, y

doethaf, a'r gorau, a'r al calon i Vedulio, yn un meun ſylued, a naturiaeth duiaul, ag yn dri pherſon. S. y tad, y mab, yr ysbryd glan: a'r tri yma ſy'n un, yn uir, yn tragouydaul, ag yn anfeſuraul duu alan o dealt, a chyrheidyad ſynuyr dyn: o hun, druy hun, ag yn hun, i mae pob peth. Ag i mae'r tair rhan penafi'r gredo yn atteb i'r ſanteidiaul, a diuahanedig drindod. y rhan gyntaf ynghylch yn creadigaeth, yr ail ynghylch yn rhybryniad, y trydyd ynghylch yn ſanteidiad, duu'r tad ſyd greadur pob peth, duu'r mab ſyd rybrynur dyn, duu'r yrbryd glan ſyd ſantaidiur, ceiduad, a rheolur yr Egluys. S. criſtnogion phydlaun.

Syril. epiſt. 10. ad Neſto.

Vicen. Lirin. contra nouatore.

Leo. ſerm. 4. de Natiuitate Dom.

D. Ai digon i griſtion gredu yn unig y pethau a gynhuyſſuyd yny Symbolen.

A. Rhaid i baub yn uir gredu'n gyntaf ag yn benaf a propheſſu yngolug y byd, y pethau a roduyd alan, yn yr Aboſtolig

2. Pet. 1

Tertul. de præſ hæret.

Symbolen, ond y rhain a fydant amluchaf urth y cymheirio ai cyfladu a Symbolen y tadau o Nicæn , a hon a eluir Symbolen Athanasius : yn y rail fan nessaf at hyn, rhaid i'r cristion gredu beth bynag y mae'r scruthur lan duuionig ganonig yn i gouleidio: ag ni dylid cymeryd, na cheisio gen neb araly hyfrau siccir, cyfreithlon i'r y scruthur lan, ond truy farn ag audurdod yr Egluys, yn drydyd y mae'n perthyn at hyn y pethau a dynnir ne a gynhiliryn diamau ueithiau a bunciau'r Symbolen: ueithie or scruthur lan , megis phynnon duuionig : yn beduery rhaid yu barnu yntuy yn bethau sagrosantaid , a chynal, druy phyd phyrf disygl pob peth a fytho'r ysbryd glan yn i annirgelu ai honnrini truy uaith yr Egluys yu credu, pa fod bynag y gorchmyner nhuy , ai druy scrifen ai truy dradodiad n'ar dafod lefery d: ynghylch hyn o beth ef a draethyr uedi yn gymuysach fely y mae yr iaunfarn y phyd yn guersydu , ag ay gorchuyl ym

& vince 1. Lirinē. con. No. Math. 1 2. Tit. 2

Ioā. 16 2. The. 2. 1. Ioā 2.

Chan. 4

hob un o'rhain, ag heb hon ofer i'r hol Bleiduyr adau idynt i hunain n'ag i erail, ras a ſalfadigaeth ynghriſt. Secta-rij.

D. Beth yu gobaith?

A. Rhinued a darfu i duu i thoualt yn yn calonau ni y criſtnogion aunaf ini diſcuyl druy amhetrus hyder, daioni yn ſalfadigaeth a bouyd traguydaul onid ef peth bychan yu credu i duu ai air, a propheſſu y dogfanau, y mae'r Egluys yn i pregethu, o dierth i'r criſtion (uedi guybod truy phyd daioni duu) gymeryd urth obaith a hyder igael gras a ſalfadigaeth traguydaul. Yrhun obaith ſy'n cynal mor gadarn i dyn cyſion, e'r maint ſytho i drueni ai luded, ag yn y diued ef yn diarſuyd ſy'n gobeithio petefai guedi i difedu o hol gymhorthuy bydaul: megis peibai duu yn fy ladi, mi a obeithaf yntho ef, a hefyd mia rois fyngobaith ar duu, nid ofnaf, mo'r peth a alo dyn i uneythir imi, ſynuu, arnati y mae

1. Cor. 13 Rom. 5 T. 2. 1. Pet. 1

2. Cor. 1. 1. Ioã 3. 1. Cor 2. Tit. 2 Ephe. 2 2. Pet. 1

fyngoglyd ni byd cuilid arnaf.

D. *Pa fod y mae i ni ynil y gobaith hun?*

